

RHWYDWAITH DARPARWYR HYFFORDDIANT

Polisi gwrthdaro rhwng buddiannau



Cyhoeddwyd gan CITB, 4 Cyrus Way, Hampton, Peterborough, PE7 8HP.

© Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu 2025

Cyhoeddwyd gyntaf ym mis Awst 2025.

Mae CITB wedi'i gofrestru fel elusen yng Nghymru a Lloegr (Rhif Cofrestru 264289) ac yn yr Alban (Rhif Cofrestru SC044875).

Mae CITB wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir. Paratowyd y pecyn hwn fel adnodd y gellir ei lwytho i lawr. Gellir ei ddefnyddio heb ganiatâd pellach gan CITB ar yr amod ei fod yn cael ei ddefnyddio o fewn sefydliad y darparwr hyfforddiant cymeradwy yn unig ac nad yw'n cael ei ddefnyddio i gael unrhyw fantais neu elw.

Cwmpas

Yr holl weithgarwch sy'n cael ei wneud gan Rwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB, gan gynnwys Site Safety Plus a Chanolfannau Prawf Ar-lein. Gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r perthnasoedd canlynol.

- Uwch Ymgynghorydd Ansawdd neu gynrychiolydd CITB sydd â diddordeb neu hanes gyda darparwr hyfforddiant.
- Uwch Ymgynghorydd Ansawdd neu gynrychiolydd CITB sydd â pherthynas ag unigolyn mewn sefydliad darparu hyfforddiant.
- Staff Darparu sydd â pherthynas â chynrychiolydd neu weithiwr.
- Staff Darparu sydd â pherthynas â'i gilydd.

Cyflwyniad

Mae CITB yn gweithio gyda nifer o ddarparwyr hyfforddiant, ac mae ganddo gysylltiadau â chyrff eraill, gan gynnwys adrannau mewnol eraill, y diwydiant, rheolyddion cymwysterau a llawer mwy.

Mae'n bosibl y gallai'r cysylltiadau hyn arwain at wrthdaro gwirioneddol a/neu bosibl rhwng buddiannau. Mae CITB yn nodi yn y polisi hwn sut y bydd yn rheoli, yn lliniaru ac yn rhoi gwybod am wrthdaro rhwng buddiannau a'r hyn y mae'n rhaid i ddarparwyr hyfforddiant ei wneud er mwyn cydymffurfio.

Datblygwyd y polisi hwn i ddiogelu uniondeb, dibynadwyedd ac enw da Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB a'r cyrsiau, cyflawniadau, profion ac asesiadau sy'n cael eu darparu gan aelodau o'r rhwydwaith hwnnw.

Diffiniad

Nid oes modd rhoi diffiniad cynhwysfawr o'r math o amgylchiadau a fydd yn arwain at wrthdaro rhwng buddiannau, ond mae enghreifftiau isod o'r sefyllfaoedd a fydd yn arwain at hynny.

Mewn unrhyw sefyllfa lle mae unigolyn neu ddarparwr hyfforddiant yn ansicr ynghylch priodoldeb trefniant penodol, bydd Rheolwr Cymeradwyo a Chydymffurfio CITB yn fwy na pharod i roi cyngor ac arweiniad.

Gellir diffinio gwrthdaro rhwng buddiannau fel staff CITB, a darparwyr hyfforddiant cymeradwy, fel a ganlyn.

- **Staff CITB**

Gwrthdaro rhwng cynrychiolydd swyddogol CITB ac unrhyw sefydliad lle gallai'r unigolyn fod â gwrthdaro neu fuddiant, er enghraifft, lle gall yr unigolyn ddylanwadu ar barti arall er budd personol gwirioneddol neu dybiedig, neu er budd aelod o'r teulu ar draul CITB neu sefydliad arall.

Nid yw gwrthdaro rhwng buddiannau wedi'i gyfyngu i achosion lle mae unigolyn yn cael rhywfaint o fantais. Mae hefyd yn codi, ac yn gallu bod yr un mor niweidiol, pan fydd gwrthdaro'n bodoli neu'n ymddangos fel petai'n bodoli heb unrhyw effaith ganlyniadol ar

ymddygiad. Nid yw polisi CITB ar wrthdaro rhwng buddiannau yn awgrymu unrhyw ddiffyg ymddiriedaeth yn ei staff. Ar ben hynny, mae wedi'i gynllunio i'w hamddiffyn rhag beirniadaeth drwy sicrhau eu bod yn cydnabod ac yn datgelu sefyllfaoedd o wrthdaro o'r fath ac yn cymryd camau i osgoi, rheoli a/neu liniaru'r sefyllfaoedd wrth iddynt godi.

- **Darparwyr Hyfforddiant Cymeradwy**

Gwrthdaro rhwng y darparwr hyfforddiant a'i gynrychiolydd/cynrychiolwyr lle mae gan staff y darparwr hyfforddiant a'r cynrychiolydd/cynrychiolwyr berthynas bersonol a allai wanhau dibynadwyedd ac uniondeb y canlyniad.

Ar ben hynny, gallai'r gwrthdaro godi os yw staff y darparwr hyfforddiant sy'n ymwneud â'r broses asesu/profi/hyfforddi a sicrhau ansawdd yn gysylltiedig ac, mewn sefyllfa i ddylanwadu ar fusnes CITB er budd proffesiynol neu bersonol gwirioneddol neu bosibl drwy ei weithgarwch.

Nid yw gwrthdaro rhwng buddiannau wedi'i gyfyngu i achosion lle mae unigolyn yn cael rhywfaint o fantais. Mae hefyd yn codi, ac yn gallu bod yr un mor niweidiol, pan fydd gwrthdaro'n bodoli neu'n ymddangos fel petai'n bodoli heb unrhyw effaith ganlyniadol ar ymddygiad. Nid yw polisi CITB ar wrthdaro rhwng buddiannau yn awgrymu unrhyw ddiffyg ymddiriedaeth yn ei ddarparwyr hyfforddiant cymeradwy; ar ben hynny, mae wedi'i gynllunio i'w hamddiffyn rhag beirniadaeth drwy sicrhau eu bod yn cydnabod ac yn datgelu gwrthdaro o'r fath ac yn cymryd camau i'w osgoi, rheoli a/neu liniaru wrth iddynt godi.

Ar gyfer Canolfannau Prawf Ar-lein, dylai goruchwylwyr profion a gweinyddwyr osgoi gwrthdaro neu wrthdaro ymddangosiadol, y gellir ei ddiffinio fel sefyllfa lle mae gan unigolyn fuddiant preifat neu bersonol, sy'n ddigon i ymddangos fel petai'n dylanwadu ar ganlyniad y prawf, er enghraifft, aelod o deulu'r gweinyddwr neu weithiwr y cwmni.

Fodd bynnag, mewn perthynas â cholegau neu ganolfannau prawf ar-lein eraill sy'n profi eu myfyrwyr neu weithwyr cwmni eu hunain yn unig, cydnabyddir y gall gweinyddwr y prawf fod yn adnabod y cynrychiolydd, ac yn ymarferol efallai na fydd modd osgoi hyn, felly fe ddylai'r ganolfan liniaru'r risg wrth ddewis y goruchwylwr (lle bo modd) er mwyn osgoi unrhyw awgrym bod gwrthdaro rhwng buddiannau ar gyfer y prawf.

Rhaid cofnodi manylion unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau, yn unol â'r polisi, a dylai cofnod fod ar gael i dîm ansawdd CITB i'w archwilio ar gais. Os ystyrir bod y gwrthdaro rhwng buddiannau yn rhy uchel i'w liniaru, fe ddylai'r cynrychiolydd sefyll ei brawf mewn lleoliad niwtral.

Proctor Eich Hunan - Mae hyn yn wahanol i Wrthdaro rhwng Buddiannau. Rhaid i'r ganolfan profi ar y rhyngwyd wneud yn siŵr nad oes profion dan amodau proctor eich hunan yn digwydd. Mae hyn yn golygu na all y Prif Weinyddwr neu'r Gweinyddwr cofrestredig lansio a gweinyddu ei brawf ei hun.

Bydd Pearson Vue bob amser yn rhoi gwybod i CITB am unrhyw achosion o Broctor Eich Hunan, a fydd yn arwain at atal y prawf.

Datgelu ac Adolygu

Staff CITB

Dyletswydd holl gyflogeion CITB yw datgelu unrhyw wrthdaro gwirioneddol neu bosibl rhwng buddiannau. Dylai unrhyw gyflogai sy'n credu bod ganddo wrthdaro, neu wrthdaro posibl, rhwng buddiannau ymgynghori â'i reolwr llinell neu'r Rheolwr Cymeradwyo a Chydymffurfio.

Dylid rhoi gwybod am wrthdaro rhwng buddiannau i'r Rheolwr Llinell a'r Rheolwr Cymeradwyo a Chydymffurfio ar unwaith. Bydd y cofnod datgelu yn ymdrin â'r math o wrthdaro, natur y gweithgaredd, disgrifiad o'r holl bartïon dan sylw, y buddiannau a'r gwobrau ariannol posibl, ac unrhyw wybodaeth arall sy'n angenrheidiol ym marn y cyflogai er mwyn gwerthuso'r datgeliad. Yng ngoleuni unrhyw ddatgeliad, efallai y bydd angen i'r Rheolwr Cymeradwyo a Chydymffurfio ymgynghori â'r Pennaeth Ansawdd a Safonau fel sy'n briodol.

Ar ôl ymgymryd â gwerthusiad priodol, efallai y penderfynir nad yw'r gwrthdaro rhwng buddiannau yn dangos unrhyw wrthdaro neu wrthdaro ymddangosiadol a'i fod yn dderbyniol heb adolygu ymhellach. Ar y llaw arall, efallai y penderfynir bod angen lefel uwch o graffu ar gyfer y gwrthdaro rhwng buddiannau. Ar gyfer pob sefyllfa, mae'n rhaid cwblhau'r gofrestr gwrthdaro i ddangos bod diwydrwydd dyladwy wedi cael ei gynnal a bod y gwrthdaro wedi cael ei reoli a'i liniaru lle bo hynny'n briodol.

Rhaid i staff CITB hefyd ddatgelu rhoddion ac arian rhodd ar y ffurflen briodol i dîm llywodraethu CITB. Nid yw'r polisi hwn yn disodli unrhyw elfen o'r datganiad blynyddol na gofynion eraill y datganiad.

Darparwyr Hyfforddiant

Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant cymeradwy ddangos eu bod wedi canfod gwrthdaro rhwng buddiannau a bod ganddynt bolisi i reoli'r risg.

Pan fydd y gwrthdaro'n effeithio'n uniongyrchol ar y broses asesu, profi, hyfforddi neu sicrhau ansawdd, mae'n rhaid rhoi gwybod i gynrychiolydd ansawdd CITB cyn cynnal unrhyw asesiad, prawf, hyfforddiant neu sicrhau ansawdd.

Rhaid i'r darparwr hyfforddiant cymeradwy fod â systemau ar waith i reoli a chofnodi (darperir atodiad 1 fel enghraifft) y gwrthdaro rhwng buddiannau a lliniaru'r risg. Rhaid bod modd ei archwilio gan CITB ar gais.

